PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Cymraeg

# Trustee Board

## Nomination Guidance

We are seeking **5** individuals to join our Trustee Board for a period of 3 years (a term of office) following the Annual General Meeting (AGM)**.**

### Nominations for the Trustee Board

Our Trustee Board is made up of 3 places that are available for appointment (such as the Chair and the Treasurer) and 9 places that are available to any individual who is a member of Children in Wales. There are also opportunities for the Board to 'co-opt' a Trustee to serve for a year to cover vacancies or gaps in skills, etc.

Each year, those Trustees who have been part of the Board for a full term of office are required to stand down. If they have completed just one term of office, they are entitled to put their name forward again for a maximum of two terms of office (or 6 years). This year, there are 5 places available for individuals from the membership of Children in Wales and we ask that, if you are interested, you complete a nomination form. You can nominate yourself, or you can nominate someone else who is a member (but you must have their permission). If there are more than 5 nominations, then we will hold a ballot of the membership to decide who will be Trustee.

### Eligibility

All current members of Children in Wales are eligible to nominate and stand for election and will be able to vote. Members of the Trustee Board must be Members of Children in Wales (by virtue of organisational or individual membership). All Trustees of Children in Wales are automatically members of the Policy Council.

### Responsibilities of a Trustee

The Trustee Board is accountable in varying degrees to a variety of individuals and organisations including our service users, members, funders, the Charity Commission and Companies House. Trustees will hold values that align with those of Children in Wales, you can read our values here. Trustees will be required to sign to a Code of Conduct, a Declaration and Register of Interest, complete a Companies House ID verification, undertake a Disclosure and Barring Service (DBS) and Bankruptcy and Insolvency Register check, and the Charity Commission's lists of disqualified directors and removed trustees is consulted.

Functions of the Trustee Board will include:

- To have control of the Charity and its property and funds
- To have responsibility for the overall governance and strategic direction of Children in Wales
- To develop the aims, objectives and goals of Children in Wales in accordance with the governing document, legal and regulatory guidelines
- To ensure that Children in Wales and its representatives function within the legal and regulatory framework of the sector and in line with the organisation's governing document, continually striving for best practice in governance
- To uphold the fiduciary duty invested in the position, undertaking such duties in a way that adds to public confidence and trust in Children in Wales
- Interviewing, appointing and monitoring the work and activities of the senior paid staff

## Time Commitment

The Trustee Board meets four times each year. The group meets either in person in Cardiff or online. There is an option to join the Finance & Human Resources sub-committee and occasionally there may be other opportunities to meet, such as for strategy discussions.

## Our Trustees

You can find a list of our current Trustees on our website. We are very keen to ensure our Trustee Board reflects the breadth of our membership, encompassing the following perspectives, for example:

- Black and Minority Ethnic communities
- Disability
- Parental
- Children & Young Persons peer led
- Welsh Language
- Geographical

## Background Information

It is suggested that potential Trustees read Children in Wales' Articles of Association and the Charity Commission guidance CC3 'The Essential Trustee: what you need to know, what you need to do' (which can be viewed at https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3).

## How to nominate

Please complete the form and return by **4 October 2026**. If you would like some further information about becoming a Trustee or have any questions, please email Caroline Taylor at caroline.taylor@childreninwales.org.uk and either she or our Chief Executive, Hugh Russell, will be more than happy to speak with you.

# Bwrdd Ymddiriedolwyr

## Canllawiau Enwebu

Rydym yn chwilio am **5** unigolyn i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr am gyfnod o 3 blynedd (y tymor gwasanaeth) yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)**.**

### Enwebiadau ar gyfer y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys tair sedd sydd ar gael i benodi iddynt (e.e. y Cadeirydd a'r Trysorydd) a 9 sedd sydd ar gael i unrhyw unigolyn sy'n aelod o Plant yng Nghymru.  Mae cyfleoedd hefyd i'r Bwrdd 'gyfethol' Ymddiriedolwr i wasanaethu am flwyddyn er mwyn llenwi seddi gwag neu lenwi bylchau o ran sgiliau, ac ati.

Bob blwyddyn, mae gofyn bod Ymddiriedolwyr a fu'n rhan o'r Bwrdd am dymor llawn o wasanaeth yn ildio'u lle.  Os byddant wedi cwblhau un tymor o wasanaeth yn unig, byddant yn gymwys i gynnig eu henw eto ar gyfer mwyafswm o ddau dymor o wasanaeth (neu 6 blynedd).  Eleni, mae 5 sedd ar gael i unigolion sy'n aelodau o Plant yng Nghymru. Os bydd ddiddordeb gennych, gofynnir i chi lenwi ffurflen enwebu.  Gallwch enwebu eich hun, neu enwebu aelod arall (ond rhaid iddynt gydsynio i hynny).  Os bydd mwy na 5 enwebiad, yna byddwn yn cynnal pleidlais ymhlith yr aelodau i benderfynu pwy fydd yr Ymddiriedolwyr.

### Pwy sy'n Gymwys

Bydd holl aelodau cyfredol Plant yng Nghymru yn gymwys i enwebu ac i sefyll mewn etholiad, ac yn gallu bwrw pleidlais.  Rhaid i Aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fod yn Aelodau o Plant yng Nghymru (trwy rinwedd aelodaeth sefydliadol neu aelodaeth unigol). Bydd holl Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru yn awtomatig yn aelodau o'r Cyngor Polisi.

### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn atebol i raddau gwahanol i amrywiaeth o unigolion a sefydliadau gan gynnwys defnyddwyr ein gwasanaeth, aelodau, cyllidwyr, y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.  Bydd gan ymddiriedolwyr werthoedd sy'n cyd-fynd â rhai Plant yng Nghymru; gallwch ddarllen ein gwerthoedd yma.  Bydd gofyn i Ymddiriedolwyr lofnodi Cod Ymddygiad, Datganiad a Chofrestr Buddiannau, cwblhau dilysiad Rhif Adnabod Tŷ'r Cwmnïau, ymrwymo i archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chael eu gwirio yn erbyn y Gofrestr Methdaliadau ac Ansolfedd, a rhestrau'r Comisiwn Elusennol o gyfarwyddwyr a anghymhwyswyd ac ymddiriedolwyr a ddiswyddwyd.

Bydd swyddogaethau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys:

- Rheoli'r Elusen a'i heiddo a'i chronfeydd arian
- Bod yn gyfrifol am lywodraethu cyffredinol a chyfeiriad strategol Plant yng Nghymru
- Datblygu nodau, amcanion a chyrchnodau Plant yng Nghymru yn unol â'r ddogfen lywodraethu a'r canllawiau cyfreithiol a rheoleiddiol
- Sicrhau bod Plant yng Nghymru a chynrychiolwyr y sefydliad yn gweithredu oddi mewn i fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y sector ac yn unol â dogfen lywodraethu'r sefydliad, gan anelu'n barhaus at arferion gorau mewn llywodraethu
- Cyflawni'r ddyletswydd ymddiriedol sy'n rhan o'r swydd, gan gyflawni'r cyfryw ddyletswyddau mewn ffordd sy'n ychwanegu at hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn Plant yng Nghymru
- Cyfweld â'r uwch-staff sy'n derbyn tâl, eu penodi a monitro eu gwaith a'u gweithgareddau

## Ymrwymiad Amser

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn. Bydd y grŵp yn cyfarfod yn bersonol yng Nghaerdydd neu'n cyfarfod ar-lein. Mae dewis i ymuno â'r is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol a gall fod cyfleoedd eraill i gyfarfod o bryd i'w gilydd, e.e. i drafod strategaeth.

## Ein Hymddiriedolwyr

Gallwch weld rhestr o'n Hymddiriedolwyr presennol ar ein gwefan. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn adlewyrchu ehangder ein haelodaeth ac yn cwmpasu'r persbectifau canlynol, er enghraifft:

- Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- Anabledd
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc a arweinir gan gyfoedion
- Y Gymraeg
- Daearyddiaeth

## Gwybodaeth gefndir

Awgrymir bod darpar Ymddiriedolwyr yn darllen Erthyglau Cymdeithasu Plant yng Nghymru a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau CC3 'Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud' (sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3).

## Sut i enwebu

Llanwch y ffurflen ac anfonwch yn ôl erbyn **4 Hydref 2026**. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ddod yn Ymddiriedolwr, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at Caroline Taylor ar caroline.taylor@childreninwales.org.uk ac naill ai hi neu ein Prif Weithredwr, Hugh Russell, yn fwy na pharod i siarad gyda chi.